Dysgwyr uchelgeisiol sy'n gyfranwyr mentrus creadigol, yn unigolion iach, hyderus ac yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus.

Mathemateg a Rhifedd

- Yn y gwersi Mathemateg, byddwn yn edrych ar luosi, adio, tynnu a chyfesurynnau.
- Byddwn yn cymhwyso'r sgiliau hyn drwy ein thema cyffrous, 'Lawr ar lan y môr' drwy fynd i 'Siop Traeth Tirion'. Tybed beth fydd cyfanswm yr eitemau fydd eu hangen ar gyfer diwrnod hyfryd ger y lli.
- Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn datrys problemau rhifyddol sy'n ymwneud â'r thema hwn hefyd.
- Ar ddiwedd y thema hwn, byddwn yn creu mapiau ac yn lleoli amrywiol lefydd arnynt er mwyn dod o hyd i gyfesurynnau a'u plotio hefyd.

Iaith a Llythrennedd

- Byddwn yn dechrau'r thema drwy ddefnyddio ein sgiliau actio er mwyn ysgrifennu sgript am ddigwyddiad cyffrous neu ddoniol ar lan y môr. Caiff y disgyblion gyfle i greu cymeriadau, llwyfannu, defnyddio propiau a recordio eu perfformiadau.
- Caiff y disgyblion gyfle wedyn i ysgrifennu araith er mwyn annog y byd i ofalu am ein hamgylchfyd. Bydd David Attenborough a Greta Thunberg yn ddylanwad mawr ar y gwaith hwn.
- Byddwn yn mynd ati i ysgrifennu adroddiad papur newydd yn adrodd digwyddiad o lygredd ar ein traethau.

Dyniaethau

- Bydd y disgyblion yn dysgu am effaith 'y bobl' ar ein byd a'n hamgylchfyd ac yn ymchwilio i negeseuon hollbwysig David Attenborough.
- Bydd pwysigrwydd ailgylchu ac effaith hyn ar ein moroedd yn ganolbwynt i'n thema.
- Byddwn hefyd yn dod i adnabod swydd yr RNLI a sut i gadw'n ddiogel wrth ymweld â'r traeth.
- Cawn gyfle i ddysgu am y gwahanol fflagiau diogelwch sydd ar lan y môr.

Celfyddydau Mynegiannol

- Byddwn yn arbrofi yn y Caban Campus wrth fynd ati i ddylunio gyda gweadau amrywiol i greu anifail môr sy'n defnyddio llinellau cymesuredd.
- Byddwn yn mwynhau dysgu mwy am anifeiliaid y môr ac yn creu collage o olygfa lan y môr. Bydd y gwaith yn cynnwys deunyddiau amrywiol o dywod i eitemau sydd wedi cael eu hailgylchu.
- Cawn gyfle i gynllunio a dylunio bwystfil ailgylchu hefyd.

Gwybodaeth i Rieni
Bl 3 a 4
Haf 2022

LAWR AR LAN Y MÔR

Ysgol Bro Gwydir

@Ysgolbrogwydir

Gwybodaeth Bwysig

Anfonwch eich plentyn i'r Ysgol yn brydlon gan anelu at bresenoldeb o 100%.

Darllenwch gyda'ch plentyn bob dydd gan arwyddo'r Cofnod Darllen.

Os dymunwch drafod unrhyw fater, cysylltwch â'r Ysgol ar 01492 640342.

Bydd gwaith cartref yn cael ei rannu ar ddechrau'r hanner tymor.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Caiff y disgyblion gyfle i ddysgu am ffrithiant a chynnal arbrawf er mwyn gweld pa ddefnydd fydd yn cyflymu neu arafu plentyn sydd yn mynd lawr sleid.
- Cawn fwynhau gymhwyso ein sgiliau Technoleg Gwybodaeth drwy greu cyflwyniad ar ddiogelwch y môr ar Adobe Spark. Bydd y disgyblion yn dysgu sut i ychwanegu lluniau, cerddoriaeth, recordio eu llais a theipio.

Iechyd a Lles

- Yn ystod y tymor hwn byddwn yn cynnal diwrnodau Gwener Gwerth y Byd ac Amser Antur.
- Bydd gwersi ymarfer corff yn cael eu cynnal **bob prynhawn dydd Iau** a bydd cyfle i ni rannu ein teimladau a sgwrsio yn ein sesiynau Amser Cylch.
- Cawn gyfle hefyd i fynd ar drip diwedd blwyddyn i Gelli Gyffwrdd a chael mwynhau prynhawn 'Hwyl gyda Dŵr'.
- Bydd sesiwn 'Martial Arts' ar 16/6/22.

Ambitious learners who are creative enterprising contributors, healthy, confident individuals and knowledgeable principled citizens.

Mathematics and Numeracy

- In our maths lessons, we will look at multiplication, addition, subtraction and coordinates.
- We will apply these skills through our exciting theme, 'Down by the Seaside' by going to 'Siop Traeth Tirion'. I wonder what the total will be after choosing al the essentials to take to the beach?!
- We will also ensure that we solve mathematical problems relating to this theme.
- At the end of this theme we will create maps and place various locations on them to find and plot coordinates.

Language and Literacy

- We will start the theme by using our acting skills to write a script for an exciting or funny seaside event. Pupils will have the opportunity to create characters, stage, use props and record their performances.
- Pupils will then have the opportunity to write a speech to encourage the world to care for our environment. David Attenborough and Greta Thunberg will be a major influence on this work.
- We will also write a newspaper report reporting a pollution incident on our beaches.

Humanities

- Pupils will learn about the impact of 'the people' on our world and our environment and will be researching into David Attenborough's vital messages.
- The importance of recycling and the impact of this on our seas will be at the heart of our theme.
- We will also get to know the RNLI and how to stay safe when visiting the beach.
- We will have the opportunity to learn about the various safety flags on the seafront.

Expressive Arts

- We will experiment in the Caban Campus as we design using various textures to create a sea creature using lines of symmetry.
- We will enjoy learning more about sea creatures by creating a collage of the seaside scene. The work will include various materials from sand to recycled items.
- We will have the opportunity to plan and design a recycling beast.

Information for year 3 and 4 parents Summer 2022

DOWN BY THE SEASIDE

Ysgol Bro Gwydir

@Ysgolbrogwydir

Important Information

Send your child to school promptly aiming for 100% attendance.
Read with your child every day and sign the reading record.
If you wish to discuss any matter, please contact the school on 01492 640342.
Homework will be set at the beginning of the half term.

Science and Technology

- Pupils will have the opportunity to experiment with friction and experiment with what material will speed up or slow down a child going down a slide.
- We will enjoy applying our ICT skills by creating a Marine Safety presentation on Adobe Spark. Pupils will learn how to add photos, music, record their voice and type.

Health and Well-being

- During this half term, we will be holding a Feel Good Friday day and Adventure Time.
- Physical Education lessons will be held **every Thursday afternoon** and we will have the opportunity to share our thought and feelings in our Circle Time sessions.
- We will also have the opportunity to go on our enf of year trip to 'Greenwood' and enjoy a 'Fun with Water' afternoon.
- There will be a Martial Arts session on 16/6/22.